Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-798
Ein cyf/Our ref JJ/05136/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

5 Rhagfyr 2017

Annwyl David

Diolch am dynnu fy sylw at ddeiseb P-05-798 sy'n galw ar i wasanaethau cymorth i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig gael eu rhedeg a'u hariannu'n annibynnol. Rwyf wedi amlinellu fy marn isod i'ch helpu wrth ystyried y ddeiseb hon yn ffurfiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i roi cymorth i bawb sy'n dioddef cam-drin domestig, waeth beth yw eu rhywedd na'u rhywioldeb.

Rydym yn cydnabod bod menywod a genethod yn cael profiad anghymesur o lawer math o drais ar sail rhywedd, gan gynnwys trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall unrhyw un brofi'r problemau hyn a chael eu heffeithio ganddynt. Mae'r gwaith o roi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Strategaeth Genedlaethol wedi bod yn gynhwysol erioed, ac yn ymwybodol o brofiad dynion. Mae'r profiad hwn wedi'i ystyried yn benodol fel rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol; yn y gwaith o roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith ac fel rhan o waith cyfathrebu sydd i ddod.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i brosiectau yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr sy'n ddynion, gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb ofn a Phrosiect Dyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru sy'n cyllido gwefan a llinell gymorth 24 awr Byw Heb Ofn yn llawn. Mae'r llinell gymorth yn ymatebol o ran rhywedd ac yn darparu cymorth hygyrch i bob dyn sy'n cael profiad o gam-drin domestig yng Nghymru, waeth beth yw eu hoedran, eu rhywedd, eu hil eu crefydd na'u cyfeiriadedd rhywiol.

Yn gywir

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip